

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd Nos Fercher 28 o Fehefin 2023, 6.30pm trwy Zoom.**

**Presennol:** Cynghorwyr; Alyn Ashworth, Gaynor Wood-Tickle, Roy Tickle, Philip Stevens, Catherine Jones, Gaynor Morgan-Rees, Jan Tomlinson & Sylvia Jennings; Jenny Barlow (Clerc y Dref).

**Arsylwi:** Cynghorydd Sir Pauline Edwards

Roedd y Cyng Alyn Ashworth yn cael problemau gyda'i rhyngwrdd a chytunodd y cynghorwyr tref i'r Cyng Catherine Jones ddechrau cadeirio'r cyfarfod.

**Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod y Cyngor Llawn mis Mai.**

**26 Ymddiheuriadau am absenoldeb.** Cyng Lara Pritchard

**27 Datganiad o Ddiddordeb Personol/Rhagfarnol**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

| Cynghorydd         | Eitem | Niwedol/Personol |
|--------------------|-------|------------------|
| Gaynor Wood Tickle | 6.4.1 | Niwedol          |
| Roy Tickle         | 6.4.1 | Niwedol          |
| Gaynor Wood Tickle | 6.5.2 | Personol         |
| Gaynor Wood Tickle | 6.5.6 | Personol         |
| Roy Tickle         | 6.5.6 | Personol         |
| Catherine Jones    | 6.5.6 | Personol         |

18.34 Dywedodd y Cyng Alyn Ashworth ei fod wedi llwyddo i gywiro'r mater TG a chytunwyd iddo barhau i gadeirio'r cyfarfod.

**28 Cadarnhau Cofnodion o Cyfarfod Llawn y Cyngor a gynhaliwyd ar Ddydd Mercher 24 o Fai 2023.** Cytunwyd a nodwyd.

Ymunodd y Cyng Sylvia Jennings â'r cyfarfod am 18.36.

**29 Materion yn codi:** Dim

**30 Gohebiaeth a dderbyniwyd:**

30.1 Adolygiad o Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol y Cyngor (2021/22 – 2029/30) – ni dderbyniwyd unrhyw adborth. Gall y Cyngorydd weithredu'r arolwg ei hun os yw'n dymuno gwneud hynny.

30.2 Cau Ffordd – Love Lane - nodwyd

30.3 Cau Ffordd Peniel - nodwyd

30.4 Ymgynghoriad Tâl Premiwm Tai Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi Treth y Cyngor (anfonwyd drwy e-bost 22.06.2023) – nodwyd. Gall y Cyngorydd weithredu'r arolwg ei hun os yw'n dymuno gwneud hynny.

30.5 E-bost oddi wrth Lyndsey Tasker yn gofyn am gymorth gyda gwaith paratoi ar gyfer Cymru yn ei Blodau. Mae'r Cynghorwyr Alyn Ashworth a Jan Tomlinson eisoes wedi cytuno i gynorthwyo.

30.6 E-bost oddi wrth Ian Millington – nodwyd diweddariad TCC. Bydd datganiad i'r wasg ar y cyd yn cael ei anfon allan yn y dyfodol agos.

30.7 Nodwyd e-bost a dderbyniwyd oddi wrth gyllid 2wish.

## 31 Cyllid

**31.1 Cyllid - Adroddiadau cysoni banc** – Ebrill & Mai cytunwyd a nodwyd.

**31.2 Rhestr o daliadau a wnaed ym mis Mai 2023.** Cytuno a Nodwyd.

|            |                         |                                  |          |
|------------|-------------------------|----------------------------------|----------|
| 02.05.2023 | 007527, 007528 & 007529 | Jones & Graham May Salary        | £3423.85 |
| 02.05.2023 | 007530                  | Chester Council Ticket 12/5      | £30.00   |
| 04.05.2023 | 007531                  | Clwb Rygbi Dinbych Tickets 20/05 | £30.00   |
| 04.05.2023 | 007532                  | Catalyst April B/band            | £38.00   |
| 04.05.2023 | 007533                  | J Barlow April Zoom              | £15.59   |
| 04.05.2023 | 007534                  | P Liversidge April ground main   | £175.00  |
| 04.05.2023 | 007535                  | P Liversidge Dr EP, debris       | £15.00   |
| 04.05.2023 | 007536                  | PR Signs Coronation plaques      | £172.80  |
| 04.05.2023 | 007537                  | Catalyst May B/band              | £38.00   |
| 04.05.2023 | 007538                  | Viking Stationery                | £404.34  |
| 19.05.2023 | 007539                  | Catalyst April backup            | £4.67    |
| 19.05.2023 | 007540                  | DCC 2 yrs domain                 | £60.00   |
| 19.05.2023 | 007542                  | Tina Roberts Vouchers x 12       | £60.00   |
| 19.05.2023 | 007543                  | C Jones Coronation refund        | £51.65   |
| 30.05.2023 | 007552                  | J Barlow May Zoom refund         | £15.59   |
| 30.05.2023 | 007553                  | G Wood Coronation refund         | £36.05   |
| 30.05.2023 | 007554                  | Catalyst April telephony         | £58.78   |
| 30.05.2023 | 007555                  | B Williams Civic payment         | £75.00   |
| 30.05.2023 | 007557                  | M Andrews Civic Payment          | £75.00   |
| 30.05.2023 | 007558                  | P Glynn Civic Payment            | £75.00   |
| 30.05.2023 | 007562                  | S Owen Civic Payment             | £80.00   |
| Total      |                         |                                  | £4934.32 |

**31.3 Rhestr o Gredydau a dderbyniwyd Ebrill & Mai 2023,** cytunwyd a nodwyd.

### Credyd a dderbyniwyd Ebrill 2023

|            |           |              |                         |
|------------|-----------|--------------|-------------------------|
| 20.04.2023 | £150.00   | DCC          | CCTV contribution       |
| 27.04.2023 | £2461.00  | Grwp Cynefin | Skate park contribution |
| 27.04.2023 | £77814.00 | DCC          | Precept payment         |
| 28.04.2023 | £187.97   | Bank         | April credit interest   |
|            |           |              | <b>Total £80612.97</b>  |

### Credyd a dderbyniwyd Mai 2023

|            |          |              |                        |
|------------|----------|--------------|------------------------|
| 12.05.2023 | £1762.15 | Museum group | Insurance payment      |
| 31.05.2023 | £292.65  | Bank         | May credit interest    |
|            |          |              | <b>Total £2054.380</b> |

**31.4 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi: Awdurdodwyd y taliadau canlynol.**

31.4.1 Cyfraniad chwarterol CSDd Neuadd y Dref 01.07.2023 – 30.09.2023 £9250.00 (rhif siec 007881)

31.4.2 Catalyst – Offer cyfarfod hybrid £2966.40 (rhif siec 007882)

31.4.3 Safety Focus (IaD) £500.00. (rhif siec 007883)

31.4.4 Scottish Power – Trydan Gardd Dr EP 28.02.2023 – 12.06.2023 £1375.35 (rhif siec 007884)

**31.5 Cymorth Grant:** Cytunwyd ar yr isod gan y cynghorwyr tref:

31.5.1 Noddfa Sir Ddinbych S137 £380.00 (rhif siec 007885)

31.5.2 Cymdeithas Gfeillio Dinbych S137 £1120.00 (rhif siec 007886)

31.5.3 SSAFA S137 £100.00 (rhif siec 007887)

31.5.4 Cyfnewidfa Gwisg Dinbych S137 £1,000.00 (rhif siec 007888)

31.5.5 Dinbych yn ei Blodau S137 £1,152.47 (rhif siec 007889)

31.5.6 Dinbych Oed ac Anabl S137 £1,650.00 (rhif siec 007891)

**31.6 Taliadau a dderbyniwyd.**

31.6.1 Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych

31.6.2 Dinbych yn ei Blodau

**32 Cynllunio:**

32.1 01/2023/0180

7 Stryd y Dyffryn, Dinbych

Trosi adeilad yn 2 fflat hunangynhwysol gan gynnwys symud blaen siop, newidiadau l ffenestri a gwaith cysylltiedig.

Codwyd gwrthwynebiadau:

Hoffai'r cynghorwyr tref gadw'r siop ar y llawr gwaelod a bod y fflat uwchben ar gael am rent rhesymol i bobl leol.

Mae'r eiddo mewn lleoliad amlwg yn Ninbych ar gyfer siopwyr.

---

32.2 01/2023/0248

Garej Pen Y Bryn, Lôn Ffynnon Barkers, Dinbych

Cael gwared ar y toeau fflat presennol ac adeiladu to crib dros y gweithdai presennol a gwaith cysylltiedig.

Dim gwrthwynebiadau

---

### 32.3 01/2023/0302

Tir yn Ty Uchaf, Prion, Dinbych

Newid defnydd tir trwy leoli 4 uned glampio a gwaith cysylltiedig.

Dim gwrthwynebiadau

Fe wnaeth y cynghorwyr tref godi pryderon ynglŷn â'r traffig ychwanegol fydd yn y lleoliad.

---

### 32.4 01/2023/0333

Tir yn (rhan o ardd) Tegfan, Lôn Llewelyn, Dinbych

Codi annedd gan gynnwys newidiadau i'r fynedfa gerbydol bresennol, creu maes parcio a gwaith cysylltiedig.

Roedd y cynghorwyr tref yn gwrthwynebu ar sawl sail. Mae'r adeilad newydd yn rhy agos i'r eiddo drws nesaf a'r cynlluniau sy'n dangos byddai'n well cael to brig ar yr ochr gyferbyn â Maes Teg. Mae'r adeilad newydd hefyd yn effeithio ar eiddo eraill yn y lleoliad. Bydd hefyd allan o gymeriad i eiddo eraill ar y stryd.

---

### 32.5 01/2023/0375

19 Ffordd Colomendy, Dinbych

Codi estyniad unllawr i ochr yr annedd a gwaith cysylltiedig.

Dim gwrthwynebiadau

---

## 33 Diweddariad y Maer – nodwyd y manylion.

### 34 Cyfarfodydd Eraill a fynychwyd gan gynghorwyr tref.

34.1 Cyfarfod Tân Gwyllt 24.05.2023 – nodwyd cofnodion.

34.2 Goleuadau Nadolig 24.05.2023 – nodwyd cofnodion.

34.3 Goleuadau Nadolig 19.06.2023 – nodwyd cofnodion.

34.4 Cadarnhaodd y Cyng Gaynor Morgan Rees bresenoldeb yn y cyfarfod Drysau Agored. Maent yn gadarnhaol iawn am y digwyddiad a byddant yn cysylltu â'r cyngor

tref am arian. Dywedodd clerc y dref y byddai angen i'r cais fod i mewn erbyn 1af Gorffennaf.

34.5 Mynychodd y Cyng Roy Tickle gyfarfod amgueddfa. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i adael yr adeilad.

**35 Cyfethol.** Y dyddiad cau ar gyfer ymgeiswyr yw 29 Mehefin.

**36 ULIC** – Rheolau Sefydlog diwygiedig – bydd y Cynghorwyr Alyn Ashworth, Catherine Jones, Roy Tickle a Gaynor Wood-Tickle yn edrych ar y rhain. Adborth i'w roi yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

**37 Derbyniwyd adroddiad Archwilio Mewnol 2022 – 2023.**

Archwiliad mewnol wedi'i gwblhau a'i ddychwelyd. Mae'r cyngor a roddwyd gan yr archwilydd mewnol wedi'i dderbyn a'i ddiwygio. Trafodwyd y ffigyrau diwedd blwyddyn / balansau a chytunwyd arnynt gan y cynghorwyr tref.

**Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 19.08 yh**

Arwyddwyd:.....

Dyddiad:.....